Datganiad i'r Wasg / Press Release
10 Mai 2010

Gŵyl Chwaraeon yr Urdd yn dathlu Llundain 2012

Bydd dros 1000 o blant yr Urdd yn ymuno yn ysbryd Llundain 2012 dydd Sadwrn 15 Mai yn Aberystwyth, wrth iddynt gymryd rhan yng Ngŵyl Chwaraeon flynyddol Urdd Gobaith Cymru. Wrth gystadlu mewn cystadlaethau pêl-droed, pêl-rwyd a thraws gwlad, bydd y plant 8, 9, 10 ac 11 mlwydd oed o bob rhan o Gymru yn cynrychioli, nid yn unig eu rhanbarthau, ond hefyd gwledydd ar draws y byd sy'n cymryd rhan yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012. Yr ysbrydoliaeth ar gyfer yr elfen newydd yma o'r Ŵyl yw'r gemau Olympaidd sy'n cyrraedd Prydain Fawr ymhen dwy flynedd, ar 27 Gorffennaf 2012.

"Bydd ein Gŵyl Chwaraeon yn un hynod gyffrous eleni," esbonia Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru. "Gyda Llundain 2012 yn ysbrydoliaeth i'r plant, bydd y digwyddiad yn un lliwgar, gyda'r 17 rhanbarth yn codi baner gwledydd Olympaidd ar draws y byd. Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn y chwaraeon yn gwisgo crysau-t eu gwlad i gynrychioli eu timau arbennig. Rydym yn hynod ddiolchgar i Legacy Trust UK am eu cymorth ariannol, ac yn gobeithio y bydd y diwrnod yn dangos i aelodau'r Urdd bod egwyddorion y gemau Olympaidd o ymdrechu am ragoriaeth, parch, cyd-weithio a dealltwriaeth hefyd yn berthnasol i ieuenctid Cymru yn eu cystadlaethau chwaraeon nhw."

Mae 17 o dimau pêl-droed wedi llwyddo ar lefel sirol cyn cyrraedd caeau Blaendolau, Aberystwyth ar gyfer y rowndiau terfynol. Bydd cymysgedd o dimau bechgyn saith-bob-ochr blynyddoedd 5 a 6 a thimau merched, ynghyd â thîm cymysg yn cystadlu yn rownd olaf y gystadleuaeth pêl-droed. Bydd merched blynyddoedd 5 a 6 hefyd yn cystadlu yn rowndiau terfynol y pêl-rwyd yn Aberystwyth. Diweddglo mawr y diwrnod yw'r ras traws gwlad, lle bydd disgwyl i dros 600 o bobl ifanc gymryd rhan yn y rownd derfynol.

Dywedodd Bryn Jones, athro cynradd yn Ysgol Sant Elfod, Abergele yn Sir Conwy: "Mae merched a bechgyn yr ysgol yn edrych ymlaen at deithio i Ganolbarth Cymru ar gyfer rowndiau terfynol y cystadlaethau pêl-droed merched a bechgyn yr Urdd. Mae 20 o ddisgyblion yr ysgol wedi llwyddo ar lefel sirol yng Nghonwy ac maent yn edrych ymlaen at y sialens nesaf. Eleni, mae'r elfen ychwanegol Llundain 2012 yn creu cynnwrf mawr yn yr ysgol, ac mae'r disgyblion yn brysur yn paratoi eu baneri ar gyfer eu gwlad nhw yn barod at yr Ŵyl. Ffrainc yw'r wlad sydd wedi ei phenodi ar ein cyfer ni, a chredaf ei fod yn gyfle gwych i'r disgyblion ddysgu mwy am y Gemau Olympaidd, a'u pwysigrwydd i ni yma yng Nghymru. Mae'n dod â chenhedloedd ynghyd, gan arddangos i'r byd athletwyr gorau'r deyrnas. Pwy a ŵyr, efallai y bydd buddugwyr Olympaidd y dyfodol yn ein plith yn Aberystwyth ar Fai 15!"

Yn ôl **Dugald Mackie**, Cadeirydd Legacy Trust UK: “Mae Legacy Trust UK yn falch o ariannu’r prosiect yma, a gweithio gydag Urdd Gobaith Cymru gan roi’r cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon newydd. Bydd manteision y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd i’w deimlo ledled y Deyrnas Unedig yn ogystal â Llundain. Mae’r gemau hyn yn gyfle i ddangos Cymru i filiynau o bobl ar draws y byd. Rydym yn credu y bydd prosiectau fel Gŵyl Chwaraeon yr Urdd yn ysbrydoli ac annog pobl ifanc drwy Gymru gyfan i gymryd rhan, gan adael ei ôl wedi’r digwyddiad.”

Yng Nghymru, mae prosiect ‘Grym y Fflam’ a ariennir gan Legacy Trust UK yn hyrwyddo diwylliant, chwaraeon ac addysg i bobl ifanc ar bob lefel, hyd yn oed wedi i Gemau Llundain fynd a dod. Fel yr eglura **Gwyn L Williams**, sy’n enedigol o Ynys Môn, ac yn Rhaglennydd Creadigol Cymru ar gyfer Llundain 2012:

“Mae Urdd Gobaith Cymru yn elfen bwysig o gynlluniau Cymru wrth ddathlu Llundain 2012. Fel y sefydliad ieuenctid mwyaf sy’n hyrwyddo diwylliant ac addysg yn Ewrop, rydym yn hynod falch o’u rhan ym mhrosiect ‘Grym y Fflam’ a’r ŴyI Chwaraeon yn ogystal â’u prosiect arall, Theatr Ieuenctid Cenedlaethol. Mae’r gemau Olympaidd yn ein hatgoffa o fwriad gwreiddiol yr Olympiad o fynd ati i drefnu digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol law yn llaw. Pob lwc i’r holl gystadleuwyr yng Ngŵyl Chwaraeon yr Urdd yn Aberystwyth!”

diwedd

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Manon Wyn yn Swyddfa’r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, 01970 613115 manonwyn@urdd.org <mailto:manonwyn@urdd.org> neu 07976 330360

NODIADAU AR GYFER GOLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif gyfundrefn ieuenctid Cymru.
- Mae’r Urdd wedi rhoi cyfleoedd cyffroes i blant a phobl ifanc am dros 80 mlynedd.
- Mae gan Urdd Gobaith Cymru dros 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 mlwydd oed.
- Amcan yr Urdd yw rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg, i ddatblygu eu hyder a pharch at ei gilydd ac eraill a phobl y byd.
- Mae gweithgareddau’r Urdd yn cynnwys gweithgareddau megis teithiau ac ymweliadau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a chanolfannau preswyl.